

Cyngor Cymuned Llanllyfni

Cofnodion cyfarfod rhithiol Cyngor Cymuned Llanllyfni, a gynhaliwyd dros y wê, Nos Fawrth, 9fed Chwefror 2021 am 7.00 o'r gloch.

Agenda

1. **Presenol:** Sian Dafydd (Cadair), Peter Bridges – Talysarn; Dafydd Thomas – Nebo, Ffion Jones – Nantlle; Barry Bracegirdle, Justin Davies, Heledd Gwilym, Dylan Herbert – Penygroes; Gwyndaf Roberts, Hefina Roberts – Llanllyfni; Judith Humphreys a Craig ab Iago - Cynghorwyr Sir.

Ymddiheuriadau: Harry Wyn Owen – Talysarn, OP Huws – Llanllyfni, Gareth Lloyd Jones – Talysarn, Erfyl Williams - Penygroes. Ni dderbynniwyd ymddiheuriad gan y Cynghorydd Dilwyn Lloyd, Talysarn.

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y gadeiryddes.

2. **Datgan buddiant personol ynglyn ag unrhyw eitem a drafodir**- Neb yn datgan.

3. **Cywirdeb cofnodion cyfarfod 12fed Ionawr 2021** – Cynnigiodd Gwyndaf Roberts ac eilliodd Peter Bridges a Barry Bracegirdle fod y cofnodion yn gywir.

4. **Materion yn codi o'r cyn gofnodion ac ymatebion Cyngor Gwynedd -**

Ymatebion Cyngor Gwynedd – Gwaghau Gyliau Llanllyfni – ymateb wedi dod i ddweud na fuasai hyn yn cael ei wneud oni bai ei fod yn beryg o greu difrod llifogydd i dai ayyb a eu bod yn cael eu gwneud fel rhan o raglen glanhau gyliau – bu i OP Huws yrru ebost i'r clerc yn gofyn os oedd posib gofyn i Gyngor Gwynedd am adroddiad o'r rhaglen lanhau er mwyn cael gwybod pryd y bu iddynt eu glanhau ddiwethaf – y clerc i gysylltu gyda'r Cyngor am hyn. Biniau Halen – Ffion Jones wedi gofyn am fin halen i Nantlle ac adroddodd Hefina Roberts fod biniau halen ar Lon Tyddyn Agnes a dau yn Nasareth angen eu llenwi – y clerc i gysylltu gyda Cyngor Gwynedd i ofyn be fuasai y gost o gael bin i Nantlle a'r gost o lenwi biniau sydd ei angen. Cynigiodd Sian Dafydd yi bawb edrych yn eu biniau halen lleol a hefyd efallai yn syniad ei roi ar y dudalen Facebook yn gofyn i'r cyhoedd wneud yr un peth hefyd os oes bin wrth eu cartref neu wrth fynd am dro. Eilwyd y cynnig hwn gan Barry Bracegirdle, felly y clerc i roi neges ar y dudalen a'r cynghorwyr i edrych yn eu biniau halen ag adrodd yn nol i'r clerc. Bu i'r clerc yrru yr holl ymatebion eraill a dderbynniwyd gan Gyngor Gwynedd i'r cynghorwyr ymlaen llaw i'r cyfarfod hwn ag nid oedd dim yn codi o'r ymatebion.

5. **Adroddiadau gan y Cynghorwyr Sir** – Roedd pawb wedi derbyn adroddiadau Judith Humphreys a Craig ab Iago ymlaen llaw i'r cyfarfod ag nid oedd dim cwestiynau yn codi o'r adroddiad. Cododd Sian Dafydd y pwynt ynglŷn â Parc Sglefrio Talysarn a dywedodd ei bod wedi ceisio cynnal cyfarfod gyda aelodau o'r cyhoedd i geisio ennyn diddordeb mewn cael cymorth i redeg y parc – ond nid oedd hyn wedi bod yn llwyddiannus. Sian nawr wedi casglu enwau pobl sydd a diddordeb ond yn bryderus o hyd ag yn gofyn os oes posib symud ymlaen i'r Cyngor Cymuned gymerud drosodd y brydles (esboniwyd fod hyn wedi ei basio yn barod yn y gorffennol ar yr amod bod yna grŵp yn cael ei greu i redeg y safle). Dywedodd Peter Bridges y buasai o yn fodlon bod yn aelod o'r grŵp a cynigiodd i Sian Dafydd gynnal cyfarfod gyda y bobl sydd wedi dangos diddordeb yn barod er mwyn trafod syniadau ayyb. Cytunodd Sian i hyn. Barry Bracegirdle yn codi y pwynt efallai y bysa yswiriant y Cyngor Cymuned yn codi yn sylweddol os yn cymerud y brydles. Efallai yn syniad siarad gyda'r cyhoedd yn gyntaf a gweld beth fydd yr ymateb. Cytunodd Craig ab Iago i gael sgwrs gyda Cyngor Gwynedd i weld os oes rhywbeth y buasent yn medru ei wneud o ran yr yswiriant.

6. **Y Farchnad Dai Gwyliau** – Roedd pawb wedi derbyn copi o e-bost gan Gyngor Tref Nefyn yn gofyn i bob Cyngor yrru i leisio eu barn am y Farchnad Dai Gwyliau. Cytunodd

pawb mewn egwyddor gyda hyn, ond y clerc i ddrafftio llythyr a'i yrru i bawb edrych drosto yn gyntaf.

7. Taflen ariannol a chyllid - Copi o'r taflenni wedi eu gyrru i'r cynghorwyr dros e-bost ymlaen llaw i'r cyfarfod er mwyn iddynt gael cyfle i edrych drostynt. Rhoddwyd cyfle i godi cwestiynau – nid oedd dim yn codi.

8. Cyfarfodydd is-bwyllgor / Cyfarfodydd yn ystod y mis – Is-bwyllgor man ail-gylchu Penygroes – Adroddodd Sian Dafydd i'r pwyllgor llawn beth a drafodwyd yn y cyfarfod hwn ar 21ain Ionawr. Roedd y clerc wedi gyrru at Judith Humphreys a Craig ab Iago i ofyn am eu cefnogaeth a maent wedi cytuno. Felly y cam nesaf fydd cysylltu gyda Cyngor Gwynedd gyda canlyniadau yr holiadur a rhoi mlaen iddynt i gadw y man hwn yn Benygroes, ond hefyd pwysleisio fod angen gwell darpariaeth. Trafodwyd a chytunwyd i'r is-bwyllgor rhoi rhywbeth at ei gilydd. *Gadawodd Judith Humphreys y cyfarfod. Pwyllgor i drafod y ceisiadau ariannol* – Yn dilyn y cyfarfod hwn ar 1af Chwefror tynnwyd i'n sylw nad yw Pwyllgor Ardal Nebo a Nasareth eisiau ceisio am gyfraniad a bod camddealltwriaeth wedi bod. Trafodwyd beth a gynnigwyd yn y cyfarfod hwn sef bod 22 cais wedi dod i law ond cynnigwyd i rannu yr arian rhwng y 12 sefydliad a oedd o fewn ardal Cyngor Cymuned Llanllyfni a rhoi £200 yr un iddynt gyda y £100 a oedd dros ben yn cael ei roi i Bwyllgor Papur Bro Lleu, ond yn dilyn nad Pwyllgor Ardal Nebo a Nasareth eisiau eu cyfraniad nhw trafodwyd ymhellach a cynnigiodd Gwyndaf Roberts fod yr 11 sefydliad nawr yn cael £225 yr un. Trafodwyd a cytunwyd yn unfrydol gyda hyn. *Cyrhaeddodd Justin Davies y cyfarfod.* Trafodwyd yma hefyd bod angen edrych ar y rheoliadau er mwyn rhoi rhywbeth ynglŷn â trosglwyddiadau banc. Efallai yn syniad bod dau o'r cynghorwyr yn awdurdodi y taliadau cyn eu bod yn cael ei gwneud. Cynnigiodd Heledd Thomas y buasai yn syniad holi Cyngor Gwynedd neu Unllais os oes yna arfer da am hyn gan gynghorau eraill.

9. Goleuadau Nadolig – Adroddodd Gwyndfa Roberts ei fod o a Barry Bracegirdle wedi cyfarfod gyda RJ Electrics o Abermaw a wedi derbyn pris ganddynt am y gwaith o dynnu y goleuadau yn Penygroes – y pris oedd £462.80 + TAW. Roedd y gôst gan Cyngor Gwynedd yn £625 am lai o waith. Holwyd Justin Davies os oedd Dale wedi ymateb – nagoedd. Trafodwyd y mater a penderfynwyd bod angen llythyru pobl y tai i'w hysbysebu y bydd y gwaith yn cael ei gario allan. Y clerc i ddrafftio llythyr a'i ddangos i bawb cyn ei roi allan. *Cyrhaeddodd Dylan Herbert y cyfarfod.* Dywedodd Dylan y buasai o yn fodlon mynd ar llythyrau o gwmpas y tai. Felly yn dilyn y drafodaeth cytunwyd yn unfrydol i gymerud pris RJ Electrics. Holodd Gwyndaf os oedd yn syniad meddwl rwan am gael bocsys ar gyfer golau yn Llanllyfni – ydi.

10. Sedd wag Ward Penygroes – Nid oedd neb wedi dangos diddordeb felly gofyn nawr i gynghorwyr Penygroes feddwl am enwau i'r rhoi ymlaen.

11. Materion Pentrefi – Penygroes – Barry Bracegirdle yn adrodd fod y tyllau ar Lôn yr Eglwys yn beryglus erbyn hyn – y clerc i gysylltu gyda Cyngor Gwynedd eto am hyn. Hefyd adroddodd fod tyllau wedi ymddangos Ffordd Yr Orsaf wrth fynedfa i fewn i Wynnstay – y clerc i gysylltu gyda CYngor Gwynedd. Hefina Roberts yn dweud fod y pant yn y ffordd o flaen y Co-op yn beryglus rwan hefyd – hyn wedi ei godi gyda Cyngor Gwynedd o'r blaen – y clerc i ddilyn fyny ar hyn. Cae Cwtin a Cae Chwarae Penygroes – y clerc heb gael ymateb ond angen holi os y buasai Judith Humphreys yn medru edrych fewn a rhoi cymorth hefo cysylltu. **Llanllyfni** – Hefina Roberts yn adrodd fod baw ci yn ofnadwy ymhob man yn ddiweddar. Holwyd os oedd wardeiniad cwn yn mynd o gwmpas – adroddodd Craig ab Iago fod yn 3 warden ond nad ydi hyn yn ddigon i Wynedd i gyd. Cynnigiodd Craig bod y Cyngor Cymuned yn llythyru Cyngor Gwynedd a holi hefyd beth yw y gosb am adael i gi faeddu a dim ei godi wedyn. Cynnigiodd Justin Davies ei roi fyny ar y dudalen Facebook am y broblem. Cytunwyd i'r Clerc gysylltu gyda Cyngor Gwynedd a yna ar ôl derbyn manylion ei roi ar y dudalen Facebook. Holodd Gwyndaf Roberts os oedd y clerc wedi clywed unrhywbeth ynglŷn â tacluso y llwybr o Bryn Haul i Graianfryn – angen cysylltu gyda nhw eto

i holi. Hefyd eisiau i'r clerc gysylltu gyda Cyngor Gwynedd i holi beth yw'r arwyddion sydd wedi ymddangos ar Lôn Ddŵr am beiriannau trwm a lorïau yn troi a pam eu bod yno. Angen hefyd diolch i Gyngor Gwynedd am lanhau y llwybr troed rhwng Llanllyfni a Penygroes.

Nebo – Y cerrig dal i fod yn y ffordd ers misoedd nawr a angen i'r clerc gysylltu gyda Cyngor Gwynedd i ofyn am eglurhad pam nad ydynt wedi eu symud oddi yno. Adroddodd Dafydd Thomas fod ysbwriel, yn cynnwys teiars wedi ymddangos yn y llecyn parcio ger craig Cwm Dulyn – Craig ab Iago am gysylltu gyda Cyngor Gwynedd am hyn. **Talysarn** – Adroddodd Peter Bridges fod teiar wedi ei ddympio ar hyd yr hen lôn – Craig am sôn am hyn wrth Cyngor Gwynedd hefyd. Sian Dafydd yn adrodd fod golau stryd ar top Allt Becws ddim yn gweithio – Sian i gael rhif y lamp ag yna y clerc i gysylltu gyda Colin Worth o Gyngor Gwynedd am hyn. Sian Dafydd yn bryderus am y gwasanaeth post yn Talysarn, gan nad yw y post yn cael defnyddio y Ganolfan oherwydd y pandemig mae hyn yn golygu mai fan sydd yn dod yno a hynny ddim ond am 1awr yr wythnos ag yn pryderu na fydd y gwasanaeth yn parhau wedi y pandemig. Sian am gadw llygad ar y sefyllfa a gofyn i'r clerc gysylltu gyda'r Swyddfa Bost i ofyn am fwy o orïau. **Nantlle** – Dim.

12. Ceisiadau Cynllunio –

C21/0066/22/LL – Cae Efa Lwyd Fawr, Ffordd Clynnog – dim gwrthwynebiad

C21/0065/22/CR – Cae Efa Lwyd Fawr, Ffordd Clynnog – dim gwrthwynebiad

C21/0049/22/LL – Tir yn Tal Garnedd, Llanllyfni – dim gwrthwynebiad

13. Gohebiaeth – E-bost wedi ei dderbyn gan 'UK Web Archive' – darllenodd y clerc yr ebost a esboniodd Justin beth yr oedd yn ei olygu sef, trafodwyd a cytunwyd i wneud hyn. Y clerc i gysylltu yn nôl gyda nhw.

14. Llwybrau a Mynwentydd – Y clerc wedi derbyn anfoneb gan y contractwyr am eu gwaith dros y flwyddyn ddiwethaf. Roedd pawb wedi gweld copi o'r anfoneb ymlaen llaw. Trafodwyd yr anfoneb, y contract a'r gwaith ychwanegol a oedd wedi ei wneud. Teimlai Dafydd Thomas y dylai y Cyngor gael anfonebau ganddynt yn fwy aml, felly yn dilyn trafodaeth cytunwyd i'r clerc gysylltu gyda nhw a gofyn am anfonebau yn fwy aml, am fanylion o'r gwaith maent wedi ei gario allan bob tro a hefyd copïau o'r tystysgrifau gwaredu gwastraff. Y clerc i ddrafftio llythyr a'i yrru i bawb ei weld ynghyd a copi o'r contract i bawb edrych drosti. Wedi derbyn pris o £800 gan y contractwyr am dynnu corlenni Mynwent Gorffwysfa. Cynnigiodd Barry Bracegirdle i dderbyn y pris hwn a cytunodd pawb. Y clerc i gysylltu gyda Ifan a Idris i ddweud hyn. Angen cysylltu gyda cwmnïau Nant, Nick Cranham a DyNant i gael prisiau i waredu a'r coed celyn ym Mynwent Sant Rhedyw.

15. Materion ariannol -

- Nia Jones - £25.00 Ffôn a rhyngwrwyd Chwefror 2021 - Cytunwyd

- Nia Jones - £14.38 Zoom Chwefror 2021 - Cytunwyd

- Cyngor Gwynedd - £222.00 – Gwasanaeth Archwilio Mewnol
Cyfrifon 19/20 - Cytunwyd

- Cyngor Gwynedd - £1346.80 – Cyfraniad blynyddol i Lyfrgell
Penygroes - Cytunwyd

- Idris a Ifan, Contractwyr - £11364.00 – Anfoneb torri gwair 2020 –
dim i'w dalu hyd nes bydd y llythyr wedi ei yrru iddynt a manylion wedi
ei dderbyn nôl ganddynt.